

Gwasanaethau Cymdeithasol

Polisi Codi Tâl am Wasanaethau
Gofal a Chefnogaeth



Ebrill
2026

Trosolwg

POLISI	Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal a Chefnogaeth
RHIF CYFEIRNOD	SS10
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Vicki Smallwood, Arweinydd Tîm, Tîm Aseidiadau Ariannol
DYDDIAD GWEITHREDU	Ebrill 2026
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Ebrill 2027

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Crynodeb o'r Newidiadau
7	Rhagfyr 2024	Naomi Harper	Diweddariadau / Diwygiadau: <ul style="list-style-type: none"> Adran 11.1 – Lleoliadau Preswyl Tymor Byr Adran 11.2 – Gofal Preswyl / Nyrsio mewn Cartref Gofal Adran 11.3 - Gofal Dibreswyl Adran 11.4 – Ailalluogi Adran 11.5 – Colegau Preswyl, Colegau Addysg Bellach a Cholegau Addysg Uwch Adran 11.6 – Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau Adran 11.7 – Gwasanaethau Dirprwyaeth y Llys Gwarchod
8	Ebrill 2025	Naomi Harper	Adlewyrchu'r cyfraddau newydd ar gyfer 2025-26
9	Rhagfyr 2025	Naomi Harper	Diweddariad i Adran 11.4 – Ailalluogi
10	Ebrill 2026	Naomi Harper	Adlewyrchu'r cyfraddau newydd ar gyfer 2026-27

Ymgynghori a Chymeradwyo

Fersiwn	Pwy	Dyddiad
7	SSMT	Rhagfyr 2024
8	Jane Davies, Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu	Ebrill 2025
9	Karen Chambers, Uwch Rheolwr Gwasanaethau Integredig, Arwain Oedolion	Rhagfyr 2025
10	Jane Davies, Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu	Ebrill 2026

Cynnwys

Trosolwg.....	2
1.0 PWRPAS.....	5
2.0 CYD-DESTUN CYFREITHIOL.....	5
2.1 Codau Ymarfer	5
3.0 PWRPAS.....	5
4.0 AR BWY MAE'R POLISI HWN YN EFFEITHIO?	6
5.0 GWASANAETHAU Y GELLIR CODI TÂL AMDANYNT AC NA ELLIR CODI TÂL AMDANYNT.....	6
5.1 Gwasanaethau a ddarperir yn rhad ac am ddim	6
5.2 Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt	6
6.0 TALIADAU UNFFURF	7
7.0 CLUDIANT	7
8.0 TRIN CYFALAF	7
9.0 TRIN INCWM	8
9.1 Incwm sy'n cael ei ddiystyru	8
9.2 Incwm sy'n cael ei ddiystyru'n rhannol	9
9.3 Incwm fydd yn cael ei ystyried yn llawn:.....	9
9.4 Incwm Tybiannol.....	10
10.0 ISAFSWM INCWM	10
10.1 Gofal Preswyl / Nyrsio.....	10
10.2 Gofal Dibreswyl.....	10
10.3 Hawl Sylfaenol.....	10
10.4 Byffer	11
10.5 Gwariant yn gysylltiedig ag Anabledd (DRE)	11
11.0 UCHAFSWM TÂL WYTHNOSOL AM WASANAETHAU.....	11
11.1 Lleoliadau preswyl tymor byr.....	11
11.2 Gofal Preswyl / Nyrsio mewn cartref gofal	12
11.3 Gofal Dibreswyl.....	12
11.4 Ailalluogi - Lleoliadau preswyl tymor byr a gofal dibreswyl	12
11.5 Colegau Preswyl, Colegau Addysg Bellach a Cholegau Addysg Uwch	13
11.6 Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau	13
11.7 Gwasanaethau Dirprwyaeth y Llys Gwarchod.....	13
12.0 GWEITHDREFN AR GYFER PENNU TÂL.....	13
12.1 Gofal Preswyl / Nyrsio.....	13
12.2 Gofal Dibreswyl.....	14
13.0 YR ASESAD ARIANNOL	14

13.1	Asesiad o ddefnyddiwr gwasanaeth fel un unigolyn	15
14.0	TREULIAU A CHOSTAU (GOFAL DIBRESWYL)	15
15.0	TREFNIADAU TALU GOHIRIEDIG (GOFAL PRESWYL / NYRSIO).....	16
16.0	COSTAU YCHWANEGOL (GOFAL PRESWYL / NYRSIO YN UNIG).....	17
17.0	ADENNILL DYLEDION AC AMDDIFADU ASED AU	18
18.0	ADOLYGIADAU A CHWYNION	18
18.1	Talu tâl, Ad-daliad neu Gyfraniad yn ystod ac ar ôl y cyfnod adolygu	20
19.0	ATODIADAU	22
19.1	Atodiad 1 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesiad Ariannol).....	22
19.2	Atodiad 2 – Ffioedd a Manylion Ariannol.....	23
19.3	Atodiad 3 – Y Daflen Cynllun Taliadau Gohiriedig	25
19.4	Atodiad 4 – Polisi Dyledion Corfforaethol	25

1.0 PWRPAS

Ar 6 Ebrill 2016, daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym. Mae'r 'Ddeddf' yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Lleol yng Nghymru i godi ffi am wasanaethau gofal a chefnogaeth. Pan fydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu codi tâl, mae'n rhaid iddynt wneud yn unol â'r rheoliadau a chod ymarfer a nodir yn y 'Ddeddf'.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi cyfrifoldeb ar unigolion ac Awdurdodau Lleol AR Y CYD i fodloni anghenion a chyflawni canlyniadau. Yn y cyd-destun hwn nid yw angen ond yn gymwys i'w ddiwallu drwy Gynllun Gofal a Chymorth a Reolir Awdurdod Lleol OS NA ELLIR EI DDIWALLU MEWN UNRHYW FFORDD ARALL. Mae hyn yn cynnwys gallu unigolion i ddefnyddio eu hadnoddau personol, gan gynnwys adnoddau ariannol, teulu sy'n fodlon helpu a rhwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau/gweithgareddau hygyrch sydd ar gael o fewn eu cymuned gyda chefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol i wneud hynny os oedd angen.

2.0 CYD-DESTUN CYFREITHIOL

Y Rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi tâl yw:

- Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth (Dewis Llety) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu Ariannol) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliad Gohiriedig) (Cymru) 2015.
- Rheoliad Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau Codi Tâl) Cymru 2015

2.1 Codau Ymarfer

Y cod ymarfer mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi tâl yw:

- Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)

3.0 PWRPAS

Cadarnhau y bydd Cyngor Sir y Fflint yn codi tâl am wasanaethau gofal a chefnogaeth preswyl/nyrsio a dibreswyl.

Cadarnhau y bydd y gofynion a nodwyd yn y rheoliadau a'r cod ymarfer yn cael eu mabwysiadu fel Polisi Cyngor Sir y Fflint.

Lle mae rheoliadau a chod ymarfer yn caniatáu neu'n gofyn i Gyngor Sir y Fflint ddefnyddio ei ddisgresiwn, er enghraifft, mewn rheolau codi tâl sefydliad a all fod yn fwy hael na'r gofynion sylfaenol y rheoliadau. Oni bai ei fod wedi'i nodi yn groes i'r polisi hwn, mae'n cadarnhau bod Cyngor Sir y Fflint bob amser yn mabwysiadu'r gofynion sylfaenol y rheoliadau. Hefyd, os yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu newid yn gyfnodol ei ofynion sylfaenol, polisi Cyngor Sir y Fflint yw adlewyrchu'r newid hyn bob amser. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddau ofyniad sylfaenol sydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.

‘Terfyn Cyfalaf’ ar gyfer gofal preswyl a gofal dibreswyl.

‘Symiau Isafswm Incwm’ i ofal preswyl a gofal dibreswyl.

4.0 AR BWY MAE’R POLISI HWN YN EFFEITHIO?

Bydd y Polisi hwn yn effeithio ar unrhyw Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth gan Gyngor Sir y Fflint. Maent yn cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i staff o fewn y Portffolios y disgwylir iddynt gydymffurfio â'r Polisi hwn.

5.0 GWASANAETHAU Y GELLIR CODI TÂL AMDANYNT AC NA ELLIR CODI TÂL AMDANYNT

Mae'r adran hon yn nodi'r gwahanol wasanaethau gofal a chymorth sy'n cael eu darparu gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'n dangos pa wasanaethau y codir tâl amdanynt ar y Defnyddiwr Gwasanaeth a pha wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim. Sylwer y gall unrhyw un o'r isod newid.

5.1 Gwasanaethau a ddarperir yn rhad ac am ddim

- Gwasanaethau ôl-ôfal sy'n cael eu darparu o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl sy'n dioddef o Glefyd Creuzfeldt Jacob (CJD)
- Gwasanaethau gofal canolradd.
- Gwasanaethau ailalluogi sydd â chyfyngiad amser arnynt
- Pecynnau staff wedi'u dyblu - bydd defnyddiwr gwasanaeth ond yn talu am 1 aelod o staff
- Gwasanaethau gofalwr sy'n cael eu darparu o dan Adran 2 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
- Gwasanaethau Cefnogi Pobl

5.2 Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt

- Gofal Preswyl a Nyrsio sy'n cael ei ddarparu mewn Cartref Gofal. Yn cynnwys gofal parhaol, gofal dros dro a gofal tymor byr.
- Gwasanaethau gofal cartref sy'n cael eu prynu'n uniongyrchol gan y Cyngor. Yn cynnwys ystod o ofal personol, mewn rhai achosion gall gynnwys gweithgareddau cymdeithasol a hamdden er mwyn ceisio galluogi unigolyn i fyw yn eu cartref neu mewn lleoliad dibreswyl.
- Gwasanaethau gofal cartref sy'n cael eu darparu yn ystod y nos
- Gwasanaethau teleofal
- Llety Byw â Chymorth
- Taliadau Uniongyrchol, oni bai eu bod yn cael eu darparu i brynu gwasanaeth lle na chodir tâl.
- Gofal Dydd
- Prydau a Lluniaeth a ddarperir yn y canolfan gofal dydd (Cyfeirir at 5 'Ffioedd Cyfradd Safonol)
- Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a Dirprwyaeth y Llys Gwarchod.

Mae Atodiad '2' yn cynnwys rhestr o ffioedd safonol cyfredol a godir gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer holl wasanaethau taladwy o fewn y sir. Efallai y bydd gofal a chymorth arbenigol, ansafonol ac allan o'r sir yn achosi taliadau safonol gwahanol. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd modd derbyn darpariaeth gofal digonol ar y gyfradd safonol. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod cyfanswm cost eu gofalwr pan gaiff ei drefnu.

6.0 TALIADAU UNFFURF

Caniateir taliadau unffurf yn y Ddeddf ar gyfer gofal a chymorth lefel isel a chostau isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel modd o godi tâl am wasanaethau a chymorth ataliol.

Mae taliad unffurf yn daladwy gan bawb sy'n derbyn y gwasanaethau hyn. Ni fydd y Cyngor yn cynnig prawf modd (asesiad ariannol) i dderbynwyr y gwasanaethau hyn. Os cynhelir asesiad modd mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau eraill y gellir codi tâl amdanynt, bydd taliad unffurf yn daladwy yn ogystal ag unrhyw uchafswm cyfradd wythnosol a osodwyd. Mae'r taliad unffurf hefyd yn daladwy pan fo'r derbynnydd yn cael eu hasesu i dalu dim cyfraniad am wasanaethau eraill y maent yn eu derbyn.

Enghreifftiau o ffioedd cyfradd unffurf.

- Prydau a Lluniaeth sy'n cael eu darparu mewn canolfannau gofal dydd
- Teleofal
- Carelink

7.0 CLUDIANT

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn amgylchiadau penodol. Oni chawn wybod yn wahanol, byddwn yn cymryd yn ganiataol bod dinasyddion sydd angen gwasanaethau dydd ar ôl cael eu hasesu yn gallu trefnu eu cludiant eu hunain i'r ddarpariaeth honno.

Mae dogfen Polisi Cludiant ar wahân sydd yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol awdurdodau a meini prawf cymhwyso.

8.0 TRIN CYFALAF

Mae Atodiad A Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl o driniaeth cyfalaf. Mae copi o'r cod ymarfer wedi'i atodi i'r polisi hwn yn Atodiad 1. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r canllaw oddi fewn y cod neu'r ymarfer fel polisi.

Bydd holl gynilon a chyfalaf y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl, gan eithrio'r cyfalaf ac eiddo sy'n cael ei ddiystyru hynny fel y nodir yn y cod ymarfer.

Mae'r terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl/ nyrsio a gofal dibreswyl wedi'i amlinellu yn Atodiad 2 - Manylion Ariannol a Ffioedd. Yr unig wahaniaeth arall rhyngddynt yw bod gwerth eiddo a feddiannir

gan y defnyddiwr gwasanaeth fel eu prif neu unig gartref, yn cael ei ddiystyru o'r asesiad modd ar gyfer gofal dibreswyl.

Bydd perchnogaeth cynilon a chyfalaf y tu hwnt i'r Terfyn Cyfalaf (Atodiad '2') a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol lawn am eu gofal mewn cartref preswyl / gofal nyrsio. Yn achos gofal dibreswyl bydd yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol llawn ar gyfer yr holl wasanaethau y maent yn eu derbyn hyd at yr uchafswm wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Os oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth gyfalaf sy'n is na'r terfyn cyfalaf, bydd eu cyfraniad tuag at gost y gofal yn seiliedig ar yr hyn y gallant ei fforddio o'u hincwm. Bydd hyn yn cael ei benderfynu drwy asesiad modd.

9.0 TRIN INCWM

Mae Atodiad B cod ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl o driniaeth incwm. Mae copi o'r cod ymarfer wedi'i atodi i'r polisi hwn fel Atodiad 1. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r canllaw oddi fewn y cod ymarfer fel ei bolisi ei hun.

Bydd holl incwm y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl, gan eithrio'r holl incwm sy'n cael ei ddiystyru fel y nodir yn y cod ymarfer.

9.1 Incwm sy'n cael ei ddiystyru

- Enillion – o gyflogaeth fel y diffinnir yn y rheoliadau a'r cod ymarfer.
- Taliadau Uniongyrchol
- Taliadau Incwm Gwarantiedig a wnaed i Gyn-filwyr o dan y Cynllun Iawndal Y Lluoedd Arfog
- Efen symudedd o Lwfans Byw i'r Anabl a Thaliad Annibyniaeth Bersonol (â thâl atodol symudedd)
- Credyd Treth Gwaith
- Incwm blwydd-dal pan gaiff ei brynu gyda: benthyciad yn erbyn prif/unig gartref defnyddwyr gwasanaeth, neu wobwr dewrder megis blwydd-dal Croes Fictoriad neu Blwydd-dal Croes Siôr. Gweler y Cod Ymarfer i gael rhagor o fanylion.
- Yswiriant diogelu morgais. Gweler y Cod Ymarfer i gael rhagor o fanylion.
- Taliadau Annibyniaeth a Thaliadau Ategol Symudedd y Lluoedd Arfog
- Taliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant a Budd-dal Plant
- Credyd Treth Plant
- Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor pan fo hyn yn cynnwys taliad i'r unigolyn
- Bonws Nadolig
- Ychwanegiad dibyniaeth a delir gyda budd-daliadau penodol
- Ymddiriedolaeth Dewisol
- Gwobrau Dewrder
- Lwfans Gwarcheidwaid
- Incwm wedi'i rewi dramor
- Incwm mewn nwyddau

- Taliadau Nadolig Pensiynwyr
- Ymddiriedaeth Anaf Personol, gan gynnwys y rheiny a weinyddir gan lys
- Budd-dal adleoli
- Taliadau Cronfa Gymdeithasol (gan gynnwys taliadau tanwydd gaeaf)
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Unrhyw grantiau neu fenthyciadau a dalwyd ar gyfer addysg
- Taliadau a wnaed mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth
- Unrhyw daliad gan:
 - Ymddiriedolaeth Macfarlane
 - Ymddiriedolaeth (Taliadau Arbennig) Macfarlane
 - Ymddiriedolaeth (Taliadau Arbennig) (rhif 2) Macfarlane
 - Sefydliad Caxton
 - Y Gronfa (taliadau i rai nad ydynt yn hemoffilig sydd â HIV)
 - Ymddiriedolaeth Eileen
 - MFET Limited
 - Cronfa Byw'n Annibynnol (2006)
 - Cynllun cronfa byw'n annibynnol Cymru
 - Cronfa Skipton
 - Cronfa Elusennol yn dilyn Bomio yn Llundain
 - Taliadau elusennol neu wirfoddol Gweler y cod ymarfer
 - Budd-dal Tai
- Unrhyw daliadau a dderbynnir mewn perthynas â Mabwysiadu, Maethu a Lwfansau Gwarchodaeth Arbennig.

9.2 Incwm sy'n cael ei ddiystyru'n rhannol

- £10.00 yr wythnos ar Daliadau arbennig Gweddwon a Gweddwon Rhyfel
- Diystyriaeth Credyd Cynilion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

9.3 Incwm fydd yn cael ei ystyried yn llawn:

- Lwfans Mynychu, gan gynnwys Lwfans Mynychu Cyson a Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol
- Lwfans Profedigaeth
- Premiwm Anabledd Difrifol
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Byw i'r Anabl (Elfen Gofal ar y gyfradd uchaf a delir)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu fudd-daliadau y mae hyn yn ei ddisodli megis Lwfans Anabledd Difrifol a Budd-dal Analluogrwydd
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-Dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu fudd-dal cyfwerth
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Mamolaeth
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol (ar y gyfradd uchaf a delir)
- Pensiwn y Wladwriaeth

- Credyd Cynhwysol
- Pensiynau/ Blwydd-dal Preifat/Galwedigaethol

Dylid ystyried unrhyw incwm sydd heb ei restru yn 8.1 ac 8.2 uchod yn llawn.

9.4 Incwm Tybiannol

Efallai y bydd Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu trin fel eu bod yn derbyn incwm tybiannol o dan amgylchiadau penodol. Efallai y bydd hyn o ganlyniad i fod yn gymwys i hawlio incwm heb wneud cais amdano, neu sy'n amddifadu eu hunain yn fwriadol rhag derbyn incwm er mwyn osgoi taliadau am ofal. Bydd y Cyngor yn ystyried incwm tybiannol yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn y cod ymarfer.

10.0 ISAFSWM INCWM

Wrth gynnal asesiad ariannol mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adael y defnyddiwr gwasanaeth gydag isafswm incwm (MIA). Mae Isafswm Incwm gwahanol yn cael ei osod ar gyfer gwasanaethau gofal Preswyl / Nyrsio a Dibreswyl.

10.1 Gofal Preswyl / Nyrsio

Mae'r isafswm incwm ar gyfer gofal preswyl a nyrsio yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Mae'n swm ariannol penodol, ac mae manylion hyn wedi'u nodi yn Atodiad 2.

Polisi Cyngor Sir y Fflint yw defnyddio'r Isafswm Incwm a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel ei Isafswm Incwm safonol. Nid yw hyn yn atal defnyddwyr gwasanaethau rhag gofyn am isafswm incwm uwch o dan amgylchiadau penodol. Bydd yr holl geisiadau i gynyddu'r Isafswm Incwm safonol yn cael ei drin yn unol â'r canllawiau a nodwyd yng nghod ymarfer Llywodraeth Cymru.

10.2 Gofal Dibreswyl

Mae'r Isafswm Incwm ar gyfer derbynwyr gofal dibreswyl yn cael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei reoliadau. Yn hytrach na bod yn swm ariannol penodol, mae'r Isafswm Incwm ar gyfer gofal dibreswyl yn seiliedig ar 'Hawl Sylfaenol pob unigolyn i Fudd-dal Lles perthnasol'. Mae manylion llawn sut i gyfrifo Isafswm Incwm ar gyfer gofal dibreswyl wedi'u nodi yn y rheoliadau a'r cod ymarfer. Byddai darlun syml fel a ganlyn:

Hawl Sylfaenol i Fudd-daliadau +35% +10% = Isafswm Incwm

Polisi Cyngor Sir y Fflint yw rhoi Swm Isafswm Incwm i holl ddefnyddwyr gwasanaeth ar sail eu hawliadau sylfaenol unigol i fudd-dal lles.

10.3 Hawl Sylfaenol

Gan fydd yr unigolyn sy'n cael gofal a chymorth y tu allan i gartref gofal angen talu am eu costau byw dyddiol megis rhent, bwyd a chyfleustodau, mae'r fframwaith codi tâl yn ceisio sicrhau bod digon o

arian i fodloni'r costau hyn. O ganlyniad, ar ôl codi tâl mae'n rhaid i awdurdodau lleol adael unigolyn y codir tâl gydag Isafswm Incwm, sy'n gyfystyr â 'hawliad sylfaenol' a byffer 35% o'r swm hwnnw. Hefyd, i gynorthwyo gyda gwariant sy'n berthnasol anabledd, mae'r rhai hynny y codir tâl arnynt yn gofod cael 10% ychwanegol o'r hawliad sylfaenol tuag at y costau hyn. Gall y lwfansau hyn newid o dro i dro.

Nid yw'r 'hawliad sylfaenol' yn cynnwys Premiwm Anabledd Difrifol. (Gweler Atodiad B a Rheoliad 12 (Rhan 2. Codi tâl dan Ran 5 y Ddeddf) o'r Rheoliadau.

10.4 Byffer

Mae'r isafswm byffer wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru yn 35% o hawl sylfaenol defnyddiwr gwasanaeth i fudd-daliadau. Polisi Cyngor Sir y Fflint yw cymhwysu'r isafswm byffer fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau.

10.5 Gwariant yn gysylltiedig ag Anabledd (DRE)

Mae'r isafswm y mae'n rhaid ei ganiatáu ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru yn 10% o hawl sylfaenol defnyddiwr gwasanaeth i fudd-daliadau. Polisi Cyngor Sir y Fflint yw bob amser defnyddio'r gofynion sylfaenol i DRE fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau.

Nid yw hyn yn atal defnyddiwr gwasanaeth rhag gofyn am adolygiad o'u costau os ydynt yn credu bod eu gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn fwy na'r 10% o swm safonol a ganiateir.

11.0 UCHAFSWM TÂL WYTHNOSOL AM WASANAETHAU

Bydd holl fanylion ffioedd ac ariannol a nodir yn Atodiad 2 yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac yn debygol o gynyddu.

Ar gyfer gofal cartref a lleoliadau preswyl tymor byr, yr uchafswm tâl yw hyd at £100.00 yr wythnos; yn ddibynnol ar ganlyniad asesiad ariannol unigolion. Ar gyfer lleoliadau preswyl tymor byr gael eu hystyried ar y gyfradd hon, mae'n rhaid i'r defnyddiwr gwasanaeth fwriadu dychwelyd adref o fewn 8 wythnos ac mae'n rhaid i'r dychweliad hwn fod yn bosibilrwydd realistig.

Ar gyfer gofal preswyl parhaol a rhai lleoliadau preswyl tymor byr, yr uchafswm tâl yw hyd at gost lawn y gwasanaeth: yn ddibynnol ar ganlyniad asesiad ariannol unigol.

11.1 Lleoliadau preswyl tymor byr

Mae gofal tymor byr yn arhosiad mewn cartref gofal sy'n para rhwng 0 ac 8 wythnos.

Mae gofal tymor byr yn diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn tra nad ydynt yn gallu bod gartref neu oherwydd y penderfynwyd bod angen asesiad parhaus arnynt mewn lleoliad mwy priodol er enghraifft. Gall hyn fod yn "gam i fyny" o'r gymuned neu'n "gam-i-lawr" o'r ysbwy.

Mae yna lawer o resymau pam y gall fod angen arhosiad tymor byr ar unigolyn mewn cartref gofal am gyfnod byr, er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Aros am ddechrau pecyn ailalluogi / gofal cartref.
- Hwyluso trefniadau rhyddhau o'r ysbyty.
- Derbyniadau Mewn Argyfwng.
- Gofal seibiant.

11.2 Gofal Preswyl / Nyrsio mewn cartref gofal

Mae gofal hirdymor mewn cartref gofal yn arhosiad sy'n para mwy nag 8 wythnos. Gall lleoliadau tymor hir fod naill ai dros dro neu'n barhaol.

- Gall lleoliad dros dro bara hyd at 52 wythnos.
- Gellir cytuno ar arhosiad parhaol ar unrhyw adeg o dderbyniad.

Nid oes uchafswm tâl wythnosol am ofal preswyl / nyrsio. Os yw defnyddiwr gwasanaeth angen cymorth ariannol oddi wrth y Cyngor i ddiwallu cost eu gofal mae'n ofynnol iddynt wneud cais am asesiad modd (ariannol). Bydd yr asesiad hwn yn cadarnhau lefel y cyfraniad sy'n ofynnol gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn fod yn gost lawn eu gofal, neu swm llai.

11.3 Gofal Dibreswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gwasanaethau gofal dibreswyl; gweler adran 7 cod ymarfer (Atodiad 1 y polisi hwn). Yr uchafswm tâl wythnosol ar hyn o bryd yw £100.00.

Polisi'r Cyngor yw defnyddio'r uchafswm tâl wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr uchafswm tâl yn berthnasol i'r holl dderbynwyr gwasanaethau gofal dibreswyl, oni bai, o ganlyniad i'w asesiad modd unigol, bod uchafswm tâl wythnosol is yn cael ei osod yn seiliedig ar yr hyn y gallant ei fforddio.

11.4 Ailalluogi - Lleoliadau preswyl tymor byr a gofal dibreswyl

Mae ailalluogi yn rhaglen asesu a chefnogaeth dymor byr, wedi'i dylunio i helpu defnyddwyr gwasanaeth i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth. Gall hyn olygu ailalluogi mewn cartref gofal neu yn eu cartref eu hunain.

Yn ystod y pedair wythnos gyntaf o roi cymorth ailalluogi, mae disgwyl i ganlyniadau hirdymor yr unigolyn gael eu hasesu. Yn dilyn yr asesiad hwn, gallai'r cymorth i'r unigolyn:

- Gael estyniad am bythefnos arall, os oes cadarnhad eu bod yn gymwys.
- Dod i ben, os nad yw'r unigolyn yn gymwys mwyach.
- Trosglwyddo i drefniant mwy hirdymor y bydd angen talu amdano.

Mae cymorth ailalluogi'n cael ei gynnig yn rhad ac am ddim am uchafswm o chwe wythnos, neu nes na fydd yr unigolyn yn gymwys mwyach – pa bynnag un ddaw gyntaf.

Mewn achosion eithriadol, gallai cymorth ailalluogi gael ei gynnig am fwy na 6 wythnos. Bydd yn rhaid i unrhyw estyniad gael ei gymeradwyo gan Banel gyda'r lefel angenrheidiol o sicrwydd y bydd yr unigolyn yn cyflawni nodau ailalluogi clir gydag estyniad o ddim mwy na phythefnos. Mewn

amgylchiadau felly, bydd y Panel hefyd yn ceisio sicrwydd bod cyfle realistig i estyniad o'r fath gyfrannu ymhellach at gadarnhau'r maint cywir i unrhyw angen hirdymor am becyn o ofal. Os na fydd sicrwydd o hynny, dylai pecyn gofal hirdymor sy'n cael ei ddarparu er hynny bob amser alluogi unigolion i fod mor annibynnol â phosib' drwy ddull sy'n seiliedig ar gryfderau/galluogi.

11.5 Colegau Preswyl, Colegau Addysg Bellach a Cholegau Addysg Uwch

Gall lleoliadau coleg preswyl fod yn ddiwrnod yn unig neu'n llawn amser yn ystod y tymor. Darperir llety, cymorth ac addysg fel rhan o'r lleoliad.

Mae'r taliadau am y lleoliadau hyn yn ymwneud â gofal cymdeithasol a'r gefnogaeth a ddarperir, yn bennaf gyda'r nos ac ar benwythnosau i fyfyrwyr mewn coleg preswyl – ni chodir tâl am agweddau addysgol o dan y polisi hwn.

Codir y ffioedd hyn o dan y strwythur ffioedd preswyl, yn ystod y tymor yn unig ac maent ar sail pro-rata yn seiliedig ar oriau aros yn y coleg fesul wythnos.

11.6 Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cyngor ddarparu Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi unigolion i reoli eu harian.

Telir taliadau penodeiaeth yn flynyddol, yn seiliedig ar gynilion a ddelir ar 1 Ebrill bob blwyddyn. I gael gwybodaeth am y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn gweler 19.2 Atodiad 2 Ffioedd a Thaliadau.

11.7 Gwasanaethau Dirprwyaeth y Llys Gwarchod

Mewn rhai amgylchiadau gall y Cyngor ddarparu Dirprwyaeth drwy'r Llys Gwarchod i gefnogi unigolion i reoli eu harian.

Mae Dirprwyaeth y Llys Gwarchod yn wasanaeth y codir tâl amdano a gosodir y ffioedd ar gyfer hyn yn ganolog gan y Llys Gwarchod. I gael rhagor o wybodaeth am y taliadau a godwyd am hyn gweler y wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Llys Gwarchod:

<https://www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-protection>

12.0 GWEITHDREFN AR GYFER PENNU TÂL

12.1 Gofal Preswyl / Nyrso

Ar gyfer gofal preswyl / nyrsio, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau naill ai cyn dechrau eu gofal, neu ar y cyfle cyntaf ar ôl dechrau'r lleoliad. Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrso yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth.

Bydd unrhyw newidiadau dilynol i gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig, neu mewn fformat arall a gytunwyd. Bydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau yn dilyn yr asesiad cychwynnol yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad.

Wrth derfynu lleoliad preswyl neu ofal nyrsio, gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth roi 1 wythnos o hysbysiad. Os ydynt yn absennol o'r cartref gofal, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth dal yn daladwy.

12.2 Gofal Dibreswyl

I gyfrifo faint y mae angen i ddefnyddiwr gwasanaeth ei dalu am wasanaeth neu gyfuniad o wasanaethau mewn un wythnos (bydd wythnos bob amser yn golygu o ddydd Sul i'r dydd Sadwrn canlynol) gall y Cyngor symud ymlaen fel a ganlyn:

- Nodi'r holl wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt y mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn eu derbyn yn wythnosol. Os nad oes modd gwneud hyn erbyn yr adeg y bydd anfoneb yn cael ei gynhyrchu (bob pedair neu bum wythnos o ôl-daliad), bydd y tâl yn seiliedig ar gynllun gofal penodol yr unigolyn.
- Defnyddio'r tâl safonol perthnasol i bob gwasanaeth, ychwanegu holl daliadau safonol ar gyfer gwasanaethau a darparwyd i roi cyfanswm tal ar gyfer yr wythnos.
- Defnyddio uchafswm tâl wythnosol (efallai na fydd hwn yn berthnasol os yw cyfanswm tâl wythnosol yn llai na'r uchafswm); neu, os yw'n llai; defnyddio uchafswm tâl wythnosol y defnyddiwr gwasanaeth fel y pennir gan asesiad modd unigol y defnyddwyr gwasanaeth (os gwnaethpwyd cais)

Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal dibreswyl yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth. Bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau trwy lythyr naill ai cyn dechrau eu gofal, neu cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau darparu'r gofal. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i gyfraniad cychwynnol y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig, neu mewn fformat arall a gytunwyd. Bydd newid i dâl yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad.

13.0 YR ASESIAID ARIANNOL

Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth y gellir codi tâl amdano, gan eithrio gwasanaethau lle bo tâl unffurf yn cael ei dalu, yn cael gwybod bod ganddynt yr hawl i geisio cymorth ariannol gan y Cyngor i dalu am eu gofal. Gellir gwneud y cais hwn drwy gwblhau Ffurflen Gais am Aseiad Ariannol. Bydd Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn 15 diwrnod gwaith i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Aseiad Ariannol. Os na ddychwelir y ffurflen o fewn y terfyn amser hwn bydd y Cyngor yn tybio nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth eisiau gwneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor a bydd anfoneb ar gyfer tâl wythnosol llawn yn cael ei hanfon at y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn atebol i dalu am eu gofal o'r diwrnod cyntaf y byddant yn ei dderbyn. Cyn y gwneir unrhyw daliad bydd y Cyngor yn cyflwyno datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi'r swm y mae angen iddynt ei dalu a sut y cyfrifwyd y swm hwn.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd y swm sy'n daladwy yn newid, gall hyn fod oherwydd:

- Newid yn y math o ofal a dderbynnir
- Newid ym modd y defnyddiwr gwasanaeth (asesiad ariannol)
- Newid yn y costau darparu'r gofal i'r Cyngor.

Bydd unrhyw newid i'r swm sydd angen ei dalu yn cael ei gyfathrebu i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy ddatganiad. Bydd unrhyw newidiadau yn berthnasol o ddyddiad y datganiad hwnnw.

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i ofyn am Aseiad Modd ar unrhyw adeg, hyd yn oed os ydynt wedi penderfynu peidio gofyn am un yn y gorffennol.

Nid oes unrhyw ymrwymiad ar y Cyngor i ôl-ddyddio unrhyw aseiad a gynhelir ar ddyddiad diweddarach os na wnaed cais am aseiad modd gan y defnyddiwr gwasanaeth yn flaenorol. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn parhau'n atebol am unrhyw swm sy'n ddyledus rhwng dyddiad yr aseiad ariannol gwreiddiol a dyddiad yr aseiad ariannol newydd os gofynnir am un.

13.1 Aseiad o ddefnyddiwr gwasanaeth fel un unigolyn

Oni bai y gofynnir fel arall gan y defnyddwyr gwasanaeth, bydd y Cyngor yn asesu gallu defnyddiwr gwasanaeth i dalu yn seiliedig ar eu modd unigol ac yn anwybyddu unrhyw incwm, cynilion neu gyfalaf a ddelir neu a dderbynnir yn enw'r partner yn unig.

Bydd yr aseiad yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- 100% o'r holl incwm a dderbynnir yn enw'r defnyddiwr gwasanaeth yn unig
- 50% o gyfalaf/cynilion a gedwir ar y cyd
- 100% o gyfalaf a gedwir yn enw'r defnyddwyr gwasanaeth yn unig.

14.0 TREULIAU A CHOSTAU (GOFAL DIBRESWYL)

Mewn rhai amgylchiadau mae'n rhaid ystyried treuliau a chostau penodol wrth gynnal aseiad modd. Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn achosi'r costau hyn, bydd yr 'isafswm incwm' yn cael ei gynyddu yn unol â swm wythnosol cyfatebol. Bydd hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr gwasanaeth gadw arian penodol i dalu'r treuliau hyn cyn iddynt orfod dechrau talu am ofal.

Bydd y treuliau canlynol yn cael eu hystyried mewn aseiad modd dibreswyl:

- Taliadau Morgais
- Taliadau Rhent (Net budd-dal tai)
- Treth y Cyngor (Net Gostyngiad Treth y Cyngor)

Mae'r egwyddorion sylfaenol canlynol yn berthnasol mewn perthynas â gofal Preswyl/ Nyrsio, er bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl rhinweddau ei hun:

- Pan mae gan unigolyn blentyn dibynnol, bydd y Cyngor yn ystyried anghenion y plentyn i benderfynu faint o incwm y dylid cadw ar ôl i'r unigolyn ar ôl codi tâl. Mae hyn berthnasol os yw'r plentyn yn byw gyda'r unigolyn neu beidio;
- Pan mae unigolyn yn talu hanner eu pensiwn deiliadaeth neu bersonol neu flwydd-dal ymddeol i ŵr/ gwraig neu bartner sifil sydd ddim yn byw yn yr un cartref gofal, efallai byddai'r Cyngor yn diystyru'r arian hwn os yw'n golygu rhoi'r partner sydd adref mewn caledi ariannol. Nid yw hwn yn berthnasol yn awtomatig i gyplau sydd heb briodi, er efallai bydd y Cyngor yn dymuno defnyddio ei ddisgresiwn i achosion unigol i wneud hynny;
- Pan fod unigolyn mewn cartref gofal dros dro ac yn aelod o gwpl (yn briod neu heb briodi), bydd y Cyngor yn diystyru unrhyw Gymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn a ddyfernir i dalu

am unrhyw ymrwymiadau cartref a ganiateir, a byddant yn ystyried anghenion yr unigolyn gartref i osod yr isafswm incwm. Hefyd bydd yn ystyried costau sy'n berthnasol i gynnal cartref y cwpl (gweler isod)

- Pan fydd eiddo unigolyn wedi'i ddiystyru, bydd y Cyngor yn ystyried a yw isafswm incwm yn ddigonol i alluogi'r unigolyn i fodloni unrhyw gostau canlyniadol. Er enghraifft, bydd lwfansau yn cael eu hystyried ar gyfer taliadau penodedig (megis morgeisi, rhent a threth y cyngor), yswiriant adeilad, costau cyfleustodau (gan gynnwys gwresogi sylfaenol yn ystod y gaeaf) a chostau cynnal a chadw rhesymol i'r eiddo.
- Pan fydd unigolyn yn ariannu ei gofal preswyl eu hunain, a gyda chytundeb taliadau gohiriedig mewn lle, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr unigolyn yn cadw adnoddau digonol i gynnal ac yswirio'r eiddo yn unol â'r isafswm gwarant briodol a ddefnyddir yn y cytundebau hynny.

Mae'n rhaid i ddefnyddiwr gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth bod treuliau ac ymrwymiadau yn cael eu talu ac yn ddyledus i wneud yn y dyfodol cyn y gellir eu cyfrif yn yr asesiad modd. Ni fydd asesiadau ariannol yn cael eu newid yn ôl-weithredol os na ddarparwyd y wybodaeth sy'n ofynnol pan yr oedd yn ofynnol ar gyfer yr asesiad ariannol cychwynnol.

Bydd unrhyw dreuliau neu gostau a ysgwyddir gan ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n byw ar ei ben ei hun yn cael eu hystyried yn llawn. Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn byw gyda phartner neu oedolion eraill dros 18 oed nad ydynt mewn addysg llawn amser, bydd unrhyw dreuliau neu gostau yn cael eu haneru neu eu rhannu'n gyfartal i adlewyrchu cyfraniad pob oedolyn at gostau'r aelwyd.

15.0 TREFNIADAU TALU GOHIRIEDIG (GOFAL PRESWYL / NYRSIO)

Ar ôl y 12 wythnos gyntaf o ofal preswyl/nyrsio parhaol, bydd gwerth prif neu unig gartref y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gynnwys fel cyfalaf yn eu hasesiad modd ariannol. (er bod eithriadau, gweled cod ymarfer, Atodiad A, adran 3). Fel arfer bydd hyn yn golygu y bydd eu cyfalaf yn rhagori ar y terfyn cyfalaf, ac o ganlyniad byddant yn cael eu hasesu fel bod angen iddynt dalu costau llawn eu gofal. Ar y pwynt hwn, os nad oes ganddynt asedau eraill neu fodd o dalu'r costau llawn yna byddant yn gymwys i ofyn i'r Cyngor ohirio taliad cyfran o'u ffioedd gofal gan ddefnyddio eu heiddo fel diogelwch. Gelwir y trefniant hwn yn gytundeb taliadau gohiriedig. Gall gohirio taliad gynorthwyo defnyddiwr gwasanaeth i ohirio'r angen i werthu eu cartref ar adeg sy'n heriol iddynt hwy a'u teulu wrth iddynt drosglwyddo i ofal preswyl.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r gofynion a'r canllawiau sy'n ymwneud â thaliadau gohiriedig fel y nodwyd yng nghod ymarfer Llywodraeth Cymru. Mae gan y Cyngor daflen 'Cynllun Taliadau Gohiriedig', mae hwn yn disgrifio mwy am y cynllun. Bydd angen cwblhau ffurflen gais i sefydlu a yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Bydd y Cyngor yn codi llog ar yr holl gytundebau taliadau gohiriedig ar yr uchafswm a ganiateir yn y rheoliadau. Mae hyn yn 0.15% yn uwch na'r 'gyfradd berthnasol'. Y gyfradd berthnasol yw cyfradd gilt marchnad a nodwyd yn yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y gyfradd berthnasol yn newid bob chwe mis ar 1 Ionawr a 1 Gorffennaf.

Mae llog yn daladwy o'r diwrnod 1af ar ôl diwedd y cyfnod diystyru 12 wythnos.

16.0 COSTAU YCHWANEGOL (GOFAL PRESWYL / NYRSIO YN UNIG)

Mae'r Cyngor yn talu ffi safonol am bob categori gofal (gwelwch Atodiad 2 ar gyfer cyfraddau eleni). Caiff y ffioedd hyn eu hadolygu'n flynyddol i benderfynu beth sy'n rhesymol ei dalu am y math o ofal sy'n cael ei gomisiynu.

Mae rhai cartrefi gofal annibynnol yn codi ffioedd uwch na'r swm arferol y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ei gyfrannu i gwrdd yn ddigonol â chost y gofal sydd ei angen i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn. Bydd y rheswm dros y ffioedd ychwanegol yn amrywio o gartref i gartref ond, er enghraifft, fe all cartref godi mwy am ystafell well. Fodd bynnag, gall y ffioedd ychwanegol hyn gwrdd ag unrhyw beth a ddarperir gan gartref sydd y tu allan i'r 'costau arferol' y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu hysgwyddo i ddarparu gofal i gwrdd ag anghenion asesedig unigolyn.

Y gost ychwanegol yw'r gwahaniaeth rhwng y swm y bydd y Cyngor yn ei dalu a chost y cartref gofal dewisol, gellir adolygu'r rhain, a gall y symiau newid dros amser.

Pan fo defnyddiwr gwasanaeth yn dewis byw mewn cartref gofal sy'n codi mwy na ffi safonol y Cyngor, mae'n bosibl y gellir gwneud trefniant os, dan amgylchiadau penodol, yw'r unigolyn yn gallu cwrdd â'r costau ei hun neu, fel arall, os oes trywydd parti yn fodlon talu'r gost ychwanegol (gweler isod).

Bydd y Cyngor yn caniatáu i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu'r costau ychwanegol ei hun os:

- Yw'n destun diystyriad eiddo 12 wythnos
- Yw'n cytuno i ymrwymo i gytundeb taliadau gohiriedig

Ni chaniateir gohirio taliad y costau ychwanegol mewn amgylchiadau lle bo'r ecwiti sydd ar gael yn yr eiddo a ddefnyddir fel diogelwch yn gyfyngedig. Bydd yn rhaid talu cost ychwanegol am gyfnod y lleoliad. Felly, bydd y Cyngor yn asesu cynaliadwyedd pob cais i ohirio cost ychwanegol. Os bernir nad oes digon o ecwiti yn yr eiddo i alluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu cost lawn ei ofal ar gyfer cyfnod y lleoliad, bydd cais i ohirio cost ychwanegol yn cael ei wrthod.

Bydd y Cyngor yn gofyn i'r cartref gofal gasglu unrhyw dâl ychwanegol yn uniongyrchol gan y trydydd parti.

Os yw trydydd parti yn rhoi'r gorau i dalu'r gost ychwanegol y maent wedi cytuno ei dalu, byddant yn parhau i fod yn atebol am y gost. Gall y Cyngor gymryd camau cyfreithiol i adennill y gost. Yn ogystal, yn amodol ar asesiad llawn o'r anghenion gofal, efallai y bydd yn rhaid iddo wneud trefniadau amgen i ddiwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth mewn cartref gofal amgen nad yw'n codi costau ychwanegol.

Ers 6 Ebrill 2023 nid yw'r Cyngor yn talu costau ychwanegol unrhyw leoliad **newydd** er mwyn defnyddio'i gyllideb gyfyngedig yn deg ar draws y sector ar y ffioedd sylfaenol a gynigir.

Byd unrhyw drefniant sydd ar waith gyda'r Cyngor yn barod yn cael ei chadw hyd nes bydd y lleoliad wedi dod i ben, ond ni fydd trefniadau newydd yn cael eu gwneud ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol neu pan nad oes opsiynau eraill ar gael yn y sir neu'r tu allan i'r sir.

Os yw'r darparwr yn codi ffioedd ychwanegol ar y teulu ac nad yw'r teulu yn gallu fforddio hyn mwyach, bydd Cyngor Sir y Fflint yn cwrdd â'r gost y taliad ychwanegol yn awtomatig gan ddeall bod y lleoliad mewn perygl.

Mae yna broses ar gyfer gofyn i'r Cyngor ystyried cwrdd â'r costau ychwanegol yma. Bydd proses banel yn adolygu pob achos yn unigol i sicrhau cydraddoldeb a'r defnydd gorau o gyllidebau cyfyngedig y Cyngor.

1. Oes angen y taliad ar gyfer cost ychwanegol oherwydd anghenion gofal a chefnogaeth ychwanegol/newidiol e.e. cefnogaeth un-i-un ar adegau penodol (naill ai'n barhaol neu dros dro)?	
Oes	Mae'n rhaid i'r Gweithiwr Cymdeithasol ailasesu anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn a'r gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu i'w gefnogi.
Nac oes	Ewch i gwestiwn 2
2. Ydi'r unigolyn yn ariannu ei hun?	
Ydi	Dylai'r darparwr wneud trefniadau gyda'r unigolyn neu'r teulu i gwrdd â'r costau ychwanegol. Os yw unigolyn yn rhoi'r gorau i dalu am y lleoliad ei hun ac os gwneir cais i'r Cyngor am gymorth, dylai'r Cyngor gyngori'r unigolyn/teulu y gall y cyllid sydd ar gael newid ac y gall hynny wedyn effeithio ar y lleoliad.
Nac ydi	Ewch i gwestiwn 3
3. Ydi'r unigolyn neu drydydd parti yn gallu talu'r costau ychwanegol yma?	
Ydi	Dylai'r unigolyn neu'r trydydd parti wneud trefniadau gyda'r darparwr i dalu'r costau ychwanegol.
Nac ydi	Dylid ystyried lleoliadau amgen, yn cynnwys lleoliadau y tu allan i'r sir. Os nad oes lleoliadau amgen ar gael, dilynir proses y panel costau ychwanegol.

17.0 ADENNILL DYLEDION AC AMDDIFADU ASED AU

Mae Atodiad F Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 1 y polisi) yn nodi'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol wrth ddelio â dyled ac amddifadu asedau. Bydd y Cyngor yn ystyried peidio â thalu cyfraniad a aseswyd neu amddifadu asedau er mwyn osgoi tâl fel mater difrifol. Pan fydd yr holl ddewisiadau eraill a nodwyd yn y cod ymarfer wedi methu â diogelu'r taliad sy'n ofynnol, bydd y Cyngor yn ceisio adennill y dyledion drwy'r llysoedd sifil.

Mae Tîm Rheoli Dyledion y Cyngor yn gyfrifol am adennill dyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfeiriwch at Atodiad 4 Polisi Dyledion Corfforaethol (Adennill Mân Ddyledion) am ragor o wybodaeth.

18.0 ADOLYGIADAU A CHWYNION

Gall unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth neu sawl sy'n derbyn y Taliadau Uniongyrchol ofyn am adolygiad o'u taliad. Gall adolygiad tâl gynnwys ystod eang o senarios sy'n cynnwys defnyddiwr gwasanaeth yn gwneud cais am adolygiad syml o gyfrifiad mathemategol yn eu tâl sydd wedi'i asesu neu anfoneb fisol, neu ddefnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am dreuliau ychwanegol sydd yn berthnasol i anabledd i gael ei ystyried yn y cyfrifiad o'r tâl sydd wedi'i asesu.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r broses fanwl y dylai awdurdodau lleol ei dilyn wrth ymdrin ag adolygiadau o ffioedd yn Atodiad E y cod ymarfer (gweler Atodiad 1 y Polisi hwn). Polisi'r Cyngor yw dilyn y gofynion a nodir yn y cod ymarfer.

Dylai pob cais am adolygiad o ffioedd gael eu hanfon ymlaen i Dîm Asesu Ffioedd a Chodi Tâl y Cyngor. Bydd yr adran hon yn rheoli a chydlynu ymatebion i holl adolygiadau codi tâl ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ym mhob achos, bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu darparu gydag enw a rhif cyswllt y swyddog/ swyddogion sy'n delio gyda'u hadolygiad.

Gellir datrys rhai adolygiadau yn gyflym e.e. gwallau mathemategol wrth gyfrifo. Efallai bydd rhai adolygiadau yn cymryd mwy o amser ac yn arwain at gadarnhad gan ddarparwyr gwasanaeth, neu weithwyr cymdeithasol mewn perthynas â lefelau o wasanaeth a gomisiynwyd.

Mewn achosion lle na ellir datrys adolygiad i fodlonrwydd y defnyddiwr gwasanaeth, mae hawl i wneud cwyn ffurfiol drwy broses safonol y Cyngor.

Mae'n rhaid i unrhyw gais gan ddefnyddiwr gwasanaeth am adolygiad nodi'r rhesymau dros geisio'r adolygiad yn glir. Disgwylir i ddefnyddiwr gwasanaeth gwblhau 'Ffurflen Gais Hawlildiad' ac mae'n rhaid darparu tystiolaeth o pam eu bod yn ystyried eu sefyllfa yn eithriad i eraill sydd yn derbyn yr un fath o ofal a chymorth.

Gellir gwrthod cais am adolygiad os credir nad oes unrhyw newid perthnasol i amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn cais blaenorol am adolygiad. Yn yr achosion hyn bydd datganiad yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi na fydd cais o'r fath yn cael ei ystyried am y rheswm hwn.

Gall defnyddiwr gwasanaeth neu gynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaeth ofyn am adolygiad.

Dylid gwneud penderfyniad ar y cais am adolygiad gael ei wneud o fewn pum diwrnod gwaith o gael y cais, a bydd yn cael ei ddarparu i'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn y ffenestr amser honno. Pan nad yw hyn yn bosibl, bydd datganiad yn cael ei anfon o fewn pum diwrnod gwaith i'r ymgeisydd yn nodi:

- Y dyddiad y derbyniwyd y cais
- Natur y cais
- Hawl y defnyddiwr gwasanaeth i benodi Cynrychiolydd
- Sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r adolygiad
- Bod y defnyddiwr gwasanaeth ddim angen talu'r ffi sydd yn amodol i'r adolygiad yn ystod cyfnod yr adolygiad, ond bydd y Cyngor bob amser yn annog unigolion i barhau talu eu ffi yn ystod y cyfnod hwn fel nad ydynt yn mynd i ddyled. Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn stopio talu, yna mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Cyngor. Os yw'r adolygiad yn llwyddiannus, yna bydd unrhyw ad-daliad yn cael ei ymdrin.
- Y bydd y Cyngor yn archwilio taliad unrhyw dâl a gronnir yn ystod y cyfnod adolygu os bydd yn daladwy o ganlyniad i'r adolygiad
- Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn gwneud cais am yr adolygiad yn cael Debyd Uniongyrchol, bydd y Cyngor yn gwneud taliadau gros yn ystod y cyfnod adolygu. Fodd bynnag, efallai bydd hyn yn cael ei adennill yn y dyfodol ar ôl yr adolygiad
- Pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad, a'r terfyn amser (15 diwrnod gwaith) er mwyn darparu'r wybodaeth honno
- Os oes angen gall y defnyddiwr gwasanaeth wneud cais am ymweliad cartref i gynorthwyo gyda darparu'r wybodaeth ychwanegol

- Yr angen i gysylltu â'r Cyngor i drefnu ymweliad cartref o'r fath
- Enw a manylion cyswllt y swyddog yn y Cyngor sy'n delio â'r adolygiad
- Manylion cyswllt unrhyw sefydliad a allai gynorthwyo'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn ystod adolygu. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys o fewn y Canllawiau - Gwneud Cais am Hawlildiad.

Bydd unrhyw gais gan ddefnyddiwr gwasanaeth am estyniad amser i gyflenwi unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei roi os yw'n rhesymol. Bydd y Cyngor yn cadarnhau unrhyw estyniad i'r terfyn amser gwreiddiol yn ysgrifenedig.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod cais am estyniad amser bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig a darperir y rheswm dros y penderfyniad.

Os na dderbynnir ymateb neu gais am estyniad amser gan y Cyngor mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth erbyn y terfyn amser a osodwyd, bydd yn ystyried bod y cais am adolygiad wedi'i dynnu'n ôl. Bydd llythyr yn cael ei anfon i'r defnyddiwr gwasanaeth yn cadarnhau hyn a bod y gyfradd a osodwyd yn daladwy yn awr, ynghyd â'r swm a gronnwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad ac erbyn pryd y mae'n rhaid talu hwn.

Efallai y bydd cais am adolygiad yn cael ei dynnu'n ôl ar lafar neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddiwr gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adolygu.

Unwaith y bydd gan y Cyngor ddigon o wybodaeth a dogfennau i gynnal yr adolygiad, bydd ganddynt 10 diwrnod gwaith i:

- Wneud penderfyniad ar yr adolygiad a chymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol i'w weithredu.
- Anfon datganiad at y defnyddiwr gwasanaeth ac unrhyw Gynrychiolydd yn nodi'r penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad a bod ganddynt yr hawl i wneud cwyn o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005 os ydynt yn anfodlon â'r penderfyniad.
- Os yw tâl y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r adolygiad, dylid anfon datganiad at y defnyddiwr gwasanaeth yn egluro'r penderfyniad a chanlyniad y penderfyniad hwn.
- Cyhoeddi Datganiadau o'r Taliadau.

Os nad yw'r Cyngor yn gallu diwallu'r terfyn amser er mwyn ymateb i gais am adolygiad (10 diwrnod gwaith), mae'n rhaid iddynt anfon datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi na fyddant yn gallu darparu penderfyniad o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod, y rheswm dros hyn a'r dyddiad y darperir penderfyniad.

Os na ellir darparu penderfyniad erbyn y terfyn amser, ni fydd modd i'r Cyngor godi tâl ar y defnyddiwr gwasanaeth am y gwasanaethau a dderbynnir yn ystod y cyfnod rhwng y terfyn amser a'r dyddiad y darperir y penderfyniad.

18.1 Talu tâl, Ad-daliad neu Gyfraniad yn ystod ac ar ôl y cyfnod adolygu

Os yw defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am adolygiad, efallai y byddant yn dewis peidio â thalu eu tâl, ad-daliad neu gyfraniad neu'r rhan sy'n destun yr adolygiad, yn ystod cyfnod yr adolygiad ond bydd unrhyw swm sydd heb ei dalu yn cronni.

Bydd y Cyngor bob amser yn annog defnyddwyr gwasanaeth i barhau i dalu eu cyfraniad i sicrhau nad ydynt yn rhoi eu hunain mewn unrhyw ddyled.

Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu peidio talu yn ystod y cyfnod adolygu mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Tîm Asesu Ariannol naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

O ran defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol os yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu peidio â thalu eu cyfraniad yn ystod y cyfnod adolygu cyfan neu weddill y cyfnod adolygu mae'n rhaid i'r Cyngor wneud taliadau gros i'r defnyddiwr gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Gall y Cyngor adennill unrhyw swm sydd heb ei dalu sydd wedi'i gronni yn ystod y cyfnod adolygu ar ôl y cyfnod adolygu. Y swm y gellir ei adennill yw'r swm y tâl, ad-daliad neu gyfraniad y mae'r Cyngor wedi penderfynu ei fod yn gywir yn dilyn yr adolygiad.

Os yw'r Cyngor yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth, yn llai na'r hyn a gyflwynwyd cyn yr adolygiad, yna mae'n rhaid i'r Cyngor dalu'r defnyddiwr gwasanaeth y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n daladwy a'r swm sydd eisoes wedi'i dalu gan y defnyddiwr gwasanaeth, o fewn 10 diwrnod o anfon eu penderfyniad at y defnyddiwr gwasanaeth.

Os yw'r Cyngor yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y defnyddiwr gwasanaeth, yn fwy na'r hyn a gyflwynwyd cyn yr adolygiad, yna efallai bydd rhaid adennill y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n daladwy a'r swm sydd eisoes wedi'i dalu, os oes unrhyw, gan y defnyddiwr gwasanaeth.

Os ydynt yn adennill unrhyw swm gan y defnyddiwr gwasanaeth, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried amgylchiadau ariannol personol y defnyddiwr gwasanaeth; a bod yn fodlon na fydd adennill y swm yn achosi caledi ariannol i'r defnyddiwr gwasanaeth. Os yw'r Cyngor yn credu y byddai adennill y swm yn achosi caledi ariannol i'r defnyddiwr gwasanaeth, yna dylent gynnig opsiwn i'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu'r swm mewn rhandaliadau.

19.0 ATODIADAU

19.1 Atodiad 1 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer (Codi Tâl ac Asesiad Ariannol)



Appendix 1- Welsh
Government Code of

Y ddolen ar gyfer hwn yw:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/social-services-and-well-being-wales-act-2014-part-4-and-5-code-of-practice-charging-and-financial-assessment.pdf>

19.2 Atodiad 2 – Ffioedd a Manylion Ariannol

Tabl Ffioedd Gofal Preswyl a Nyrsio 2026/27	
Cartrefi Gofal Sector Preifat ac Annibynnol	
Categori Gofal	Ffi Wythnosol
Preswyl	£839.36
Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl	£957.73
Nyrsio	£997.18 *
Nyrsio - Henoed Bregus eu Meddwl	£1076.04 *
*Ddim yn cynnwys Cyfraniad y Bwrdd Iechyd o £229.46 yr wythnos a £9.30 a delir gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint (mae'r gyfradd fel ag yr oedd yn 2024/25 gan nad oedd cyfradd 20225/26 wedi'i phenderfynu eto).	

Tabl Ffioedd Dibreswyl 2026/27	
Math o Wasanaeth	Cyfradd
Gofal Cartref	Yr awr - £26.74 ¾ awr - £22.26 ½ awr - £17.75
Cyfradd Taliad Uniongyrchol (Cynorthwy-ydd Personol a Micro-ofalwyr)	£19.09 yr awr
Cyfradd Taliad Uniongyrchol (Asiantaeth Gofal Cartref Cofrestredig CIW)	Yr awr - £26.74 ¾ awr - £22.26 ½ awr - £17.75
Darparwr Micro-ofal (heb weithwyr) Darparwr Micro-ofal Comisiynedig (heb weithwyr) neu Taliad Uniongyrchol Micro-ofalwr Contract	£21.91 yr awr
Darparwr Micro-ofal (gyda gweithwyr) Darparwr Micro-ofal Comisiynedig (gyda gweithwyr) neu Taliad Uniongyrchol Micro-ofalwr Contract	£22.41 yr awr
Cyfradd Gofal Dydd Pobl Hŷn	£57.47 Cost i'r darparwr
Cyfradd Gofal Dydd LD/PD	£70.72 Cost i'r darparwr
Cyfraddau cysgu i mewn Taliadau cysgu i mewn - Darpariaeth gefnogol a ddarperir yn allanol/DP's/PADP's	£107.36 y noson

Cyfradd Tâl Bwyd	£12.00
------------------	--------

Manylion Ariannol Eraill 2026/27

Gofal Preswyl Terfyn Cyfalaf	£50,000
Gofal Dibreswyl Terfyn Cyfalaf	£24,000
Isafswm Incwm Preswyl a Nyrsio	£46.35
Uchafswm Tâl Wythnosol Gofal Dibreswyl	£100.00

Taliadau Cytundeb Taliadau Gohiriedig 2026/27

Costau a gafwyd	Swm £
Prisiadau	£89.25
Ffioedd Cyfreithiol	£420.00
Ffi Sefydlu	£262.50
Ffi Weinyddu Flynyddol	£96.50
Taliadau Llog	<p>Bydd llog yn cael ei godi o ddiwrnod cyntaf y cytundeb Taliadau Gohiriedig ac yn cael eu creu a thâl ychwanegol o 0.15% yn uwch na 'chyfradd berthnasol'.</p> <p>Y gyfradd berthnasol yw Graddfa Marchnad Gilt a ddarperir ar benderfynyddion y bwrdd rhagolwg cyllidol a gellir cael mynediad ato o'r wefan ganlynol:</p> <p>http://budgetresponsibility.org.uk</p>

Gwasanaethau Penodeiaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau 2026/27

Cyfalaf (Cynilion) o:	Cyfradd
£0 - £5,999	Nil charge
£6,000 - £9,999	£10.50

£10,000 - £15,999	£12.60
£16,000 +	£14.18
Taliadau untro	
Tasg y codir tâl amdani:	Tâl un tro
Sefydlu Penodeiaeth	£210.00
Dod â Phenodeiaeth i ben	£210.00
Sefydlu a pharhau i reoli Cytundeb Motability (fesul cytundeb Motability)	£262.50

19.3 Atodiad 3 – Y Daflen Cynllun Taliadau Gohiriedig

<https://www.sirymfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Adult-Social-Services/SSA-A30-Deferred-Payment-Welsh.pdf>

19.4 Atodiad 4 – Polisi Dyledion Corfforaethol

<https://flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Sundry-Debtors/Corporate-Debt-Policy.pdf>